

Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Lun, **12 Mehefin 2017** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-06/17: Presennol

Cadeirydd : Cyng Sian Williams; Cyng. Robert Cadwalader, Cyng William A Evans; Cyng. Phil Jones; Cyng Henry Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Robert T Price; Cyng Wayne T Roberts; Cyng Eirwyn Williams;
Clerc – Dr Catrin Jones.

2-06/17 Ymddiheuriadau:

Cyng Elizabeth George; Cyng Dafydd Lloyd; Cyng Elizabeth Reagan;

3-06/17: Datgan diddordeb

Ni wnaeth neb ddatgan diddordeb

4-06/17 Cadarnhau cofnodion mis Mai 2017

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

Nodwyd bod y Cyng Wayne Roberts wedi arwyddo ei ffurflen derbyn swydd ar 25 Mai.

5-06/17: Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law y Cadeirydd/Clerc)

- a. Clwb Rhyngwladol Jaguar XKs - Taith o Gwmpas Arfordir Prydain – Nodwyd bod gwahoddiad wed'i dderbyn i fflagio ceir cychwyn rhan 6 o'r daith elusennol i godi arian i Prostate Cancer UK yn Bron Eifion bore dydd Sadwrn, 16 Mehefin. Roedd y Cadeirydd a'r Clerc am fynychu.
- b. Castell Criccieth – Nodwyd bod gwahoddiad wedi'i dderbyn gan CADW ar gyfer ymweliad nos Iau 15 Mehefin am 6. Roedd y Cadeirydd, Robert Cadwalader, Elizabeth George, Dafydd Lloyd a'r Clerc am fynychu.

6-06/17: Gohebiaeth

- a. Ymgynghoriad Gwasanaeth Rheilffordd
Nodwyd bod y Clerc wedi gyrru yr ymateb a gytunwyd i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor.
- b. Llywodraeth Cymru – Newyddion diweddaraf yr Amgylchedd Hanesyddol Mwy o ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (ebost 2/06/17)
Er gwybodaeth, nodwyd bod nifer o ddarpariaethau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 wedi dod i rym ar 31 Mai 2017: Roedd y wybodaeth wedi cael ei gylchredeg ac yn cyfeirio at:

- Ymgynghoriad, gwarchodaeth interim ac adolygiad ar gyfer henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig;
 - Proses symlach o roi cydsyniad i heneb gofrestrredig
 - Adennill costau ar gyfer gwaith brys i adeiladau rhestredig
 - Cofnodion amgylchedd hnesyddol statudol
 -
- c. Llywodraeth Cymru Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru - Cylchlythyr Ebrill 2017 (ebost 3/05/17)
Roedd yr ymgynghoriad wedi ei gylchredeg gyda'r gwahoddiad i ymateb erbyn 21 Gorffennaf. Nid oedd gan y Cyngor sylwadau penodol>
Penderfyniad: i beidio ymateb i'r ymgynghoriad.
- d. Un Llais Cymru – Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer Cyngorau Tref a Chymuned (ebost 12/05/2017)
Roedd y model brotocol a baratowyed gan Un Llais Cymru wedi'i gylchredeg.
Penderfyniad: y Clerc i baratoi Protocol ar sail y ddogfen hon i'w gytuno gan y Cyngor.
- e. Un Llais Cymru – Archwiliad Allanol: Cyfieithu Dogfennau (ebost 18/05/17)
Roedd cadarnhad wedi dod gan Un Llais Cymru ynghlŷn â chyfieithu dogfennau ar gyfer yr archwiliad allanol:
“darparwch y cofnodion, os gwelwch yn dda, ynghyd â phapurau ategol eraill ym mha iaith bynnag y mae'r cyngor yn cadw ei gyfrifon ynddi. Os mai cofnodion Cymraeg yn unig sydd genych, nid oes angen i chi gyfieithu'r rhain. Os ydych yn cadw cofnodion dwyieithog, cyflwynwch y dogfennau yn Gymraeg a Saesneg, os gwelwch yn dda.”
Roedd yn dda gan y Cyngor dderbyn y cadarnhad yma gan mai Cymraeg oedd iaith weithredol y Cyngor ac y cedwir y cofnodion a phapurau ategol eraill yn y Gymraeg.
- f. Un Llais Cymru – Cyfarfod Pwyllgor Rhanbarthol 14 Mehefin 2017
Nodi y bydd y Clerc yn mynychu y cyfarfod yma. Byddai Iwan Williams o Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hyn yn bresennol i roi cyflwyniad ar waith y Comisiynydd a'i berthnasedd i rôl cyngorau cymuned a thref.
- g. Un Llais Cymru – Hyfforddiant Un Llais Cymru Gogledd Cymru (ebost 1/06/2017) a Chynhadledd 05 Gorffennaf 2017
Roedd y rhestr o gyrsiau hyfforddiant wedi ei cylchredeg.
Penderfyniad :
Cyllid Llywodraeth Lleol: i'w fynychu gan y Cadeirydd
Dealltwriaeth o'r Gyfraith: i'w fynychu gan y Cadeirydd a'r Clerc
Cynhadledd Un Llais Cymru 5/07 yn Llanelwedd: i'w fynychu gan y Clerc.
- h. Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: Ymgynghoriad (ebost 5/06/17)

Roedd gwahoddiad i'r Cyngor gymryd rhan yn ymgyngoriad i gynllunio'r modd y dylai gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru gael eu datblygu dros y blynyddoedd nesaf .

Penderfyniad: i gyfeirio'r ymgyngoriad i'r Grwp Llywio i baratoi drafft ymateb i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

i. Diwrnod y Llynges 3 Medi 2017 (llythyr 26/05/17)

Roedd gwahoddiad wedi dod i fod yn rhan o ddiwrnod dathlu y Llynges.

Penderfyniad: i gefnogi yr ymgyrch hon ac i brynu baner (ar gost o £28) i'w chwifio ar bolyn gwylwyr y glannau ar y diwrnod.

j. Adeilad Llyfrgell Criccieth (ebost 2/06/17)

Roedd llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth Mr Gareth Jones at sylw y Cyngor ynglŷn â dyfodol yr adeilad a'i botensial i'w ddatblygu fel adnodd cymunedol.

Penderfyniad: y Clerc i ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i ofyn am eglurhad beth oedd yr opsiynau ar gyfer dyfodol yr adeilad, a bod y Cyngor Tref Criccieth yn awyddus i drafod y mater yma gyda'r Cyngor.

k. Binau sbwriel/gwastraff/daparu seddau ar y promenad (ebost 5/06/17)

Roedd llythyr wedi ei dderbyn gan Mr Collin Higgs yn tynnu sylw am yr angen am finiau sbwriel ychwanegol yn y dref; holi am y posibilrwydd o ail osod seddi ar y prom rhwng Caerwylan a Dylans; a defnydd o ddeunydd mwy amgylcheddol gan werthwyr bwyd têt awe. –

Penderfyniad: Y Clerc i ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i holi am finiau ychwanegol i'r dre; i gyfeirio y posibil o ail osod seddi ar y prom i'r Grŵp Llywio ar gyfer y Cynllun Cymunedol.

l. Cyfarchion penblwydd 100

Dathlodd Mrs Margaret Rees Owen, un o drigolion y dref benblwydd arbennig yn 100 oed ar 2 Mehefin. Roedd ei diweddar wr, Mr Jack Rees yn Gadeirydd y Cyngor ar un adeg. Yn unol ag arferiad y Cyngor Tref i gydnabod dathliad trigolion y dref sy'n cyrraedd y garreg filltir arbennig hon, mi wnaeth Cadeirydd y Cyngor Tref drefnu cerdyn a blodau ac ymweld â Mrs Owen ar ran y Cyngor i ddymuno penblwydd hapus iddi.

7-06/17: Ceisiadau Cynllunio

- a. Ymgyngoriad cyn cais cynllunio –Roedd y Cyngor wedi derbyn datganiad Cymuned a leithyddol ar gyfer datblygiad tir gyferbyn â Gwesty George IV gan Criccieth Developments (ebost 31/05/2017) Nodwyd bod yr adroddiad wedi ei gylchredeg i aelodau ac wedi cael ei baratoi mewn ymateb i gais Cyngor Gwynedd am ddatganiad cymuned a ieithyddol y datblygiad ar ddefnydd y Gymraeg yng Nghriccieth. Roedd yr asesiad yn cynnig rhestr buddion honedig y datblygiad i'r gymuned, gan gyfeirio at gynnig tai newydd, cyfleodd gwaith (adeiladu + swyddi archfarchnad) a gwella cyfleusterau siopa. Roedd yr asesiad yn honni hefyd bod y datblygiad wedi'i gynllunio er budd y gymuned leol ac ymwelwyr o bob oedran gan helpu cynladwyedd y boblogaeth yn nhermau: tai ar gyfer pobl leol, cyfleusterau i'r gymuned, gwella'r amgylchedd ac economi. : Roedd y datblygiad yn cynnwys 13 ty, 24 fflat, nifer o unedau manwerthu, gardd gyhoeddus, a maes parcio.

Cafwyd drafodaeth drylwyr o'r adroddiad.

Penderfyniad: Y Clerc i baratoi llythyr at sylw Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd yn crynhoi'r pwyntiau â godwyd fel materion o bryder ynglŷn â'r asesiad, ac i'w gylchredeg i aelodau'r Cyngor am sylwadau cyn ei ddanfon ymlaen at Cyngor Gwynedd.

8-06/17 Grŵp Llywio Cynllun Cymunedol Criccieth- cofnodion cyfarfod 23 Mai 2017

Nodwyd bod cofnodion y Grŵp wedi ei cylchredeg. Tynnwyd sylw at y materion canlynol:

- a. 4-05/17 bod y pensaer wedi cyflwyno syniadau a fyddai'n datblygu yn gynlluniau i'w hystyried ymhellach, ar sail y syniadau oedd wedi ei trafod gan y Cyngor eisoes ac hefyd nifer o awgrymiadau eraill yn dilyn y cyfarfod maes gydag aelodau o'r Grŵp.
- b. 7-05/17 a Grant Cymunedol Hafod y Gest - - aros am ymateb i'r cais a oedd wedi ei gyflwyno.
- c. 7-05/17 c Torri gwair yn y dref: cytunwyd i drefnu toriad ychwanegol ddiwedd mis Gorffennaf, ar sail yr amserlen oedd wedi dod i law
- d. 8-05/17 a. Penderfyniad i fwrw ymlaen gyda'r cais ariannol i fedru cynnal y prosiect cyffrous yma.
 - b. Argymhelliad i'r Cyngor i brynu y pencyn "beacon" ar gost o £360 + TAW ar gyfer 100 mlynedd o gofio yn 2018.
- e. 8-05/17 e Trin a phaentio y cysgodfannau – nodwyd bod y gwaith i drin y cysgodfannau wedi cael ei gwblhau ar gost o £860 a bod y gwaith paentio yn cymeryd lle.

Penderfyniad: Derbyniwyd yr adroddiad a'r cofnodion ac argymhellion y Grŵp.

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Grŵp am 6.00 o'r gloch ar 27 Mehefin.

9-06/17 Parcio yng Nghriccieth

Roedd y gwaith i osod llinellau melyn dwbl a oedd wedi cael eu cytuno drwy broses ymgynghori gan Cyngor Gwynedd wedi cael eu gosod yn ei lle. Nodwyd fodd bynnag, ym marn y Cyngor Tref nad oedd y llinellau melyn ger Bwyty Dylan's wedi helpu y parcio blêr, gan fod ceir dal yn parcio tu fewn i'r llinellau melyn newydd.

Penderfyniad: y dylai'r Clerc ysgrifennu at Cyngor Gwynedd i ofyn i'r Swyddog priodol ymweld â'r safle, gyda'r bwriad o fedru symud y lein felen ddwbl.

10-06/17 Goleuadau Nadolig

Roedd cwôt wedi ei dderbyn gan RJ Electrics ar gyfer goleuadau Nadolig 2017 gan gynnwys gwaith i ymestyn y goleuadau o gwmpas y sgwâr. Cafwyd drafodaeth fanwl am yr opsiynau, gan gynnwys peidio â chael coeden Nadolig eleni, oherwydd roedd yna gwestiwn wedi codi am ei lleoliad.

Penderfyniad: i beidio â chael coeden Nadolig yn 2017 ac i ofyn am gwôt diwygiedig gan y trydanwr er mwyn medru fforddio ymestyn y goleuadau.

11-06/17: Llwybr o Benaber i'r parc

Dim byd i'w adrodd – dal yn aros am gadarnhad am y gwaith gan Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad: y Clerc i ysgrifennu at Bennaeth Priffyrdd Cyngor Gwynedd i fynegi consyrn nad oedd y gwaith wedi digwydd.

12-06/17: Torri gwair yn y dref

Nodwyd nad oedd Cyngor Gwynedd wedi ymateb i gais y Cyngor Tref am faint o daliad y byddai y Cyngor yn ei wneud pe bai y Cyngor Tref yn trefnu torri gwair yn y dref o'r flwyddyn ariannol 2018/19 ymlaen, ac hynny pe byddai modd dangos gwerth am arian am wneud hyn. Er bod

gohebiaeth wedi ei dderbyn dyddiedig 19 Mai yn addo manylder cost torri gwair ar gyfer 18/19 o fewn yr wythnos, nid oedd ymateb wedi ei dderbyn eto.

Penderfyniad: y Clerc i ysgrifennu eto at Cyngor Gwynedd.

13-06/17: Llyfrgell Criccieth ac offer a gedwir yn yr adeilad presennol

Dim gwybodaeth swyddogol wedi ei dderbyn i gadarnhau pryd oedd y Llyfrgell yn symud.

14-06/17:Cronfa John Trefor Roberts

Nodwyd bod y Clerc yn dal i aros am y cytundeb a ofynnwyd amdano. Nid oedd y Cyngor yn fodlon gyda'r sefyllfa.

Penderfyniad: Yn dilyn cyngor priodol, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu unwaith eto, ac i nodi y camau posib y byddai'n digwydd pe na byddai ymateb i'r cais. Yn ogsytal roedd y Clerc am ysgrifennu at y Banc i weld â oedd modd cael y wybodaeth ganddynt.

15-06/17 Llwybrau Cyhoeddus

- a. Roedd Y Cyngor dal yn aros am gadarnhad am y gwaith ar risiau Abereistedd gan Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad: y Clerc i ysgrifennu at Bennaeth Priffyrdd Cyngor Gwynedd i fynegi consyrn nad oedd y gwaith wedi digwydd.

- b. Nodwyd bod Atkins wedi gwneud y toriad cyntaf o'r llwybrau cyhoeddus a'r fynwent.

16-06/17: Derbyniadau

Dim

17-06/17: Taliadau

• Cyllid y Wlad (PAYE)	£126.60	Siec 101061
• Cyflog y Clerc	£506.69	Siec 101062
• Cyngor Gwynedd – toiledau cyhoeddus Criccieth	£6,000	Siec 101063
• Trwsio Cysgodfannau P R Montague	£860.00	Siec 101064
• Ad-daliad i'r Cadeirydd am Flodau Penblwydd 100	£25.00	Siec 101065
• Atkin Groundworks Ltd	£505.99	Siec 101066

Rhoddwyd ganiatad i'r clerck i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Lun 10 Gorffennaf 2017**.

****Bydd y rhaglen yma yn cau 1 Gorffennaf 2017****